| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Pensiynau** |
| **DYDDIAD** | **17 Mehefin 2014** |
| **TEITL** | **Polisi ar Leihau Buddion Pensiwn** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **I newid Polisi Lleihau'r Gronfa yn gyd-destun y diwygio ym Mholisi'r Llywodraeth a Rheoliadau** |
| **AWDUR** | **Dafydd L. Edwards – Pennaeth Cyllid** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Newid y Polisi er mwyn aelodau sydd wedi eu hail gyflogi dderbyn buddion pensiwn llawn** |

**1. Cefndir**

1.1 O bosib bod aelodau yn ymwybodol bod gan yr Awdurdod Gweinyddol bwerau dewisol i "leihau" pensiynau aelodau, pe byddent yn dod yn ail gyflogedig o fewn Llywodraeth Leol

1.2. Mae polisi lleihau presennol y Gronfa mewn lle ers 1998. Mae'n dweud bydd buddion pensiwn yn cael eu lleihau neu atal os ailgyflogir aelod, a lle mae'r cyflog newydd a'r pensiwn yn rhagori'r cyflog ar adael y gyflogaeth wreiddiol. Y bwriad yw sicrhau eu bod ddim gwell allan drwy dderbyn eu pensiwn a'r cyflog newydd i'w gymharu â'r cyflog y derbyniasant wrth ymddeol yn y lle cyntaf.

1.3. Caniataodd ddiwygiadau yn neddfwriaeth treth o'r 6ed Ebrill 2006, yr hawl i "ymddeoliad hyblyg", gyda chyflogwyr y yn cael disgresiwn i dalu pensiwn i weithwyr oedd yn gostwng eu horiau neu raddfa cyflog ar ôl oed 55, fel iddynt dderbyn eu pensiwn yn gynnar yn ogystal ag ennill cyflog o oriau is neu gyflog llai. Daeth hyn yn ddarpariaeth yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2008.

1.4. Mae wyth pensiwn wedi eu "lleihau" yng Nghronfa Gwynedd ar hyn o bryd, gyda thri yn berthnasol i un person. Cyfanswm werth y lleihad blynyddol fel ar 2013/14 oedd oddeutu £18,000.

1.5. Cafwyd rhai achosion yn dod i'r amlwg nifer o flynyddoedd ar ôl dechrau'r ail-gyflogaeth, oherwydd i'r aelod fethu a hysbysu Uned Bensiynau ar y pryd. Mae achosion o'r fath yn dueddol o arwain at ddadleuon emosiynol a chyfres o ohebiaeth sydd yn cymryd peth amser cyn gellir gytuno at fesurau i adennill y gordaliadau.

**2. Newid Polisi**

2.1 Yn dilyn newidiadau Ebrill 2006, mae aelodau a ymddeolodd o dan reoliadau "ymddeol hyblyg" (gwelwch 1.3) yn derbyn eu buddion heb effaith lleihad, tra nid yw hyn yn wir i'r rhai yn gadael cyflogaeth a dychwelyd.

2.2 Yr unig eithriad yw aelodau a dderbyniodd blynyddoedd ychwanegol o ganlyniad i ymddeol ar sail diswyddo neu effeithiolrwydd felly, bydd y rhan yma o'u pensiwn yn parhau i gael ei addasu o dan yr hen bolisi lleihau. Nid oes disgresiwn ar gael i ddiddymu'r rheoliadau lleihau na gohiriant am y blynyddoedd ychwanegol.

2.3 Mae angen adolygu polisi'r Gronfa ar leihau neu ohirio pensiwn ar ôl ail-gyflogaeth fel i fod yn gyson a darpariaethau "ymddeol hyblyg" yn unol a pwynt 1.3, yn enwedig gan nid yw CPLlL 2014 bellach yn caniatáu lleihad ar bensiwn sydd wedi cronni ar ôl 31 Mawrth 2014.

2.4 Darganfuwyd drwy drafodaethau gyda chronfeydd llywodraeth leol eraill (Siroedd Fflint, Caerdydd, Powys, Torfaen, RCT, Swydd Amwythig, Swydd Stafford, Swydd Warwick Glannau Merswy, Swydd Gaerlleon a Swydd Caerwrangon) eu bod wedi diwygio'u polisïau fel bod aelodau ail gyflogedig bellach yn derbyn eu buddion heb leihad. Yr unig eithriad i'r uchod yng Nghymru yw Gronfa Bensiwn Dyfed, sydd yn parhau i leihau buddion aelodau a ymddeolodd oherwydd salwch rhenciau un a dau.

## 3. ARGYMHELLIAD:

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau gymeradwyo newid y polisi lle, yn gyffredinol, bydd aelodau a ail-gyflogir yn derbyn eu buddion heb effaith lleihad. Yn achos yr wyth pensiwn a gyfeirir atynt yn 1.4 mae angen adfer y lleihad neu ohiriad i'r pensiynau o 1af o Orffennaf 2014.

3.2 Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau ystyried eithrio ymddeoliadau salwch rhenciau un a dau a'r rhai salwch cyn 2008 h.y. lleihau'r rhannau hynny o'r pensiynau a ganiateir (croniad cyn 2014 yn unig) ar ail gyflogaeth os yw'r cyflog newydd plws y pensiwn yn fwy na'r cyflog cyn eu hymddeoliad salwch.